Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

# Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 5.] MAI, 1913. [Pris 2c.

## CYNWYSIAD.

Ar-Edyn Ffydd.

Oddiar y Twr.

Ymsom y Myfyriwr.

Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau.
Parch. E. Ceredig Jones.

Ar Bont Capel Cynon. Sarnicol.

Gwroniaid y Mannau Cudd.
Parch. T. E. Nicholas, Glais.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Priodasau.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

# YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

**Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.**

---

NOW READY and may be obtained of

J. D. LEWIS, "YR YMOFYNYDD" OFFICE, LLANDYSSUL.

—:o:—

## "An Interpretation of Rudolph Eucken's Philosophy."

By the Rev. W. TUDOR JONES, PH.D.

**Price 5s. nett.**

This Book deals with Prof. Eucken's philosophy in a far more extensive manner than has hitherto been attempted in England.

---

OS AM SICRHAU COPI O

## "CRWTH DYFFRYN CLETTWR"

Anfoner yn ddioed am dano at J. D. LEWIS, Swyddfa "Yr Ymofynydd," Llandyssul, yr hwn sydd wedi prynu yr oll oedd gan y Cyhoeddwr. Prisiau—Paper Covers, 1/6; Cloth, 2/6; Half Bound, 3/-. Postage, 2d.

---

# Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith: fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad

*1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.*

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

**John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.**

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

# YR YMOFYNYDD.

*Cylchgrawn Misol y . . .*
*Gymdeithas Undodaidd Gymreig.*

*"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.*

CYFRES NEWYDD. MAI, 1913. [CYF. XIII. RHIF 5.

## AR EDYN FFYDD.

### CAN Y GLOWR.*

COCHION ac iach oedd dy ruddiau
Chwech o flynyddau'n ol;
Pan aethost drwy Ddyffryn Cerdin
O ffermdy Gwaelod-y-ddol.

Hoew a chryf oedd dy gamrau,
Yn hogyn ugain oed:
Pan gerddit tua'r orsaf
O dan y derw goed.

Dychwelaist ymhen dwy flynedd
O Swydd Forganwg ddu,
A chreithiau glas ar dy dalcen,
A'th wedd yn fwy llwyd na bu.

Aeth pedair blynedd heibio—
Mewn arch deuaist 'nol pryd hyn,
A'th lygad glas byth ynghauad,
A'th wedd mor wyn, mor wyn!

### DU A GWYN.*

Bum drwy y palas, cain ei liw a'i lun,
A chefais drem ar urddas meddwl dyn.
Eis i'r ystryd; a gwridai'r haul uwchben
Ar lety Lazarus a Magdalen.

Gwelais yr arflong ddur yn rhwygo'r don,
A balchder ymerodraeth yn ei bron;
A gwelais hen bysgotwr, prin ei ran,
Ar afon Teifi yn ei gorwgl gwan.

O fewn chwareudy gwelaf wraig o fri
Uwchben rhyw hanes ffug yn wylo'n lli:
A'i gwas ar ben y cerbyd yn y stryd
Yn marw yn yr oerfel yr un pryd.

Af heibio gwyndai fil: trigfannau cain
I weision cyflogedig Duw yw rhain:
Ac yna trof yn ol i roddi trem
Ar faban tlawd ym mhreseb Bethlehem.

* "Odlau Mor a Mynydd" gan Sarnicol.

## ODDIAR Y TWR.

---

NI raid i neb fod yn sylwedydd craffus iawn cyn gweled fod yn y byd crefyddol yn Mhrydain heddyw ddau fudiad a ogwyddant i gyfeiriadau hollol wrthgyferbyniol. Un o honynt yw'r

### Mudiad Rhyddfrydig.

Y mae hwn yn amlwg yn yr holl Eglwysi. Nid yw yn hollol ddieithr i hyd yn oed ein Heglwys Sefydledig. Ie, y mae wedi anturio yn wylaidd i wthio ei ben i fewn i ddinas fawr, gaerog iawnffyddiaeth, sef, Eglwys Rhufain. Ni olygaf wrth hyn fod syniadau crefyddol yr Eglwysi yn cyfnewid i gyfeiriad Undodiaeth, er nad pell o le fyddwn pe dywedwn hyny. Ni raid i syniad fod yn Undodaidd cyn bod yn syniad rhyddfrydig. Ni raid bod yn Undodwr cyn bod yn rhyddfeddyliwr. Ni raid croesi'r ffin i diriogaeth Undodiaeth cyn anadlu awyr bur rhyddid. Camsyniadau yw y rhai hyn yr ydym yn dueddol iawn i syrthio iddynt. Ac y mae yn hen bryd bod ar wyliadwriaeth rhagddynt. Ni olygaf ddim yn rhagor wrth ddweyd bod yspryd mwy rhyddfrydig yn graddol weithio ei ffordd i fewn i'r Eglwysi na bod nifer cynyddol yn yr Eglwysi yn ymryddhau o ymlyniad ystyfnig wrth gredoau, a'u bod yn dechreu myfyrio gwirioneddau crefydd yn ngoleuni gwybodaeth ddiweddar yn ei hamrywiol agweddau. Dyna yn unig sydd eisieu. Ond cael dynion i wneud hyn yn weddol gyffredinol, bydd yr Eglwys Gristionogol, mor bell ag y mae syniadaeth yn myned, wedi dod i'r safle ddelfrydol. Y mae'r mudiad, cynyddol ei nerth, yn nghyfeiriad y safle hon yn un calonogol iawn, a dymuno Duw yn rhwydd iddo wna pob un a gâr gynydd.

### Y Mudiad Arall

yw'r un sydd a'i ogwydd tua Rhufain. Ni chyfeiriaf yn awr at gynydd rhyfeddol Eglwys Rhufain yn Mhrydain yn ystod yr ychydig flynyddau diweddaf—dyweder y chwarter canrif diweddaf. Yn ystod y cyfnod byr uchod y mae Eglwys Rhufain wedi enill tir yn ein gwlad nad oes gan y mwyafrif o'r trigolion un amgyffred am ei faintioli—wedi enill tir yn ddystaw ond nid llai effeithiol oherwydd hyny. Pe rhoddwn yma ystadegaeth i ddangos ei nerth chwarter canrif yn ol a'i nerth heddyw, credaf y perai'r gymhariaeth ddirfawr syndod i'n darllenwyr. Y mae wedi enill tir yn ddirfawr hyd yn oed yn Nghymru. Amcan

### Awdurdodau'r Eglwys Babaidd—

ni wnant un ymgais i guddio'r amcan—yw adenill y safle fu yn eiddo iddi yn y wlad hon unwaith, dros o leiaf y deuddeg canrif gyntaf o'r

cyfnod Cristionogol, ond a gollwyd ganddi yn amser y Diwygiad. Y mae *yn hyn* berygl. Gwyr y sawl ydynt adnabyddus o hanes y Babaeth beth yw'r perygl. Y mae yn y Babaeth lawer o bethau teilwng o edmygedd diledryw. Ond gwae'r wlad a syrth dan ei llywodraeth. Nid oes genyf, wrth gwrs, un hawl i achwyn am hyn. Y mae gan yr Eglwys Babaidd yr un rhyddid i wneud yr oll a all i helaethu ei therfynau ag sydd gan unrhyw enwad crefyddol arall; ond, er hyn, ni fedr neb a wir werthfawroga ei ryddid lawenychu yn ei llwyddiant. Hyn gyda llaw. Yr hyn fwriadwn gyfeirio ato yn arbenig wrth ddechreu ysgrifenn yw'r

### Ogwydd Rufeinig

yn ein Heglwys Sefydledig ni. Eglwys Brotestanaidd yw Eglwys Lloegr, ac fel Eglwys Sefydledig dylai fod yn fur cadarn yn erbyn pob gogwydd yn ol tua Rhufain. Yn hytrach na bod felly, y mae'r Eglwys Sefydledig heddyw a'i gogwydd yn gryf yn y cyfeiriad hwn. Ie, nid yn unig y mae ei gogwydd tua Rhufain, ond mewn llawer o achosion ni cheisir cuddio'r ymdrechion i ddwyn hyn oddiamgylch. O braidd yr ä wythnos heibio heb i sylw gael ei dynu at ymdrechion offeiriadaeth yr Eglwys Sefydledig i ddynwared yr offeiriadaeth Babaidd. Un o honiadau'r Eglwys Babaidd, er enghraifft, yw'r

### Gallu i Faddeu Pechodau.

Honiad hanfodol Babaidd yw hon. A phan y gwneir yr honiad gan yr offeiriadaeth Babaidd, ni achosa un syndod. Iddynt hwy y mae'r fath honiad yn naturiol. Credant fod y gallu hwn yn eu meddiant. Y mae maddeu pechod, felly, yn rhan o'u dyledswydd. Honiad disail, niweidiol, yw hon yn marn pob Protestaniad. Nid oes gan *un dyn* hawl na gallu i faddeu pechod dyn arall. Yn y mater o faddeuant pechod, rhaid i bob dyn fod yn offeiriad iddo'i hun; mewn geiriau ereill, dyn ei hun sydd i benderfynu'r mater o faddeuant pechod, ac nid neb arall. Nid ameu hawl yr Eglwys Babaidd i wneud yr honiad hwn, fodd bynag, yw fy amcan yn awr. Cyfeirio yr wyf, yn hytrach, at gynydd yr honiad a'r arferiad yn Eglwys Loegr—cynydd amlwg iawn yn y blynyddau diweddaf. A chwynaf am hyn am y rheswm fod pob offeiriad yn Eglwys Loegr a wna'r honiad hwn, yn enwedig pob offeiriad a wna ymgais i gario'r honiad i weithrediad, yn dod yn genhadwr effeithiol i arwain ei eglwys—Eglwys Brotestanaidd—yn ol yn grynswth i Rufain. Y mae'r honiad a'r arferiad yn wrthun, ond y mae'r yspryd sydd tu cefn iddynt yn beryglus. Y mae yn ddieithriad yn esgor ar y

### Trahausedd Offeiriadol

sydd yn nodwedd mor amlwg o offeiriadaeth Eglwys Lloegr heddyw. Nid yn unig ni foddlona llawer o honynt ar fod eu cynulleidfaoedd yn

gwneud "cyffesiad cyffredinol" o'u pechodau mewn addoliad cyhoeddus; y mae yn eu ffurf-wasanaeth ddarpariaeth ar gyfer hyn; ond anogant eu haelodau hefyd i wneud cyffesiad dirgelaidd o'u pechodau yn ngwyddfod yr offeiriad. I'r sawl a wnant hyn, proffesa'r offeiriad ei fod yn meddu'r gallu i roi iddynt ollyngdod o'u pechodau. Wrth wneud hyn, hawliant awdurdod ar eneidiau dynion a benywod na pherthyn iddynt. Dyddorol iawn fyddai gwybod pa mor gyffredin y gwneir yr honiad ac y ffyna'r arferiad hwn yn Nghymru. Dengys hyn, ar wahan i lawer o bethau pwysig ereill ellid eu henwi, mai'r

### Offeiriadaeth yw'r Gelyn—

ie, yr offeiriadaeth yw gelyn penaf pob rhyddid a blaenfynediad heddyw fel erioed. Dengys hyd yn oed bethau bychain, ymddangosiadol ddibwys, y cyfeiriad y mae'r gwynt yn chwythu; neu, amlygant yr yspryd gelyniaethus tu cefn i'r wisg allanol. Y mae'r plentyn bach, newydd-anedig, yn marw; a gwneir parotoadau i osod ei gorph yn nghladdfa'r teulu yn ymyl yr Eglwys. "Ydyw'r baban wedi ei fedyddio?" "Nac ydyw." "Os felly, ni ellwch gymeryd ei gorph i'r Eglwys." Am nad oedd yr offeiriad wedi cael y fraint o osod dyferyn o ddwfr ar ei dalcen! Y mae offeiriad newydd yn dod i gymydogaeth neillduol; a chyn ei fod yn gwybod yn iawn yn mha le y mae yn sefyll, datgana ei benderfyniad i lanw ei eglwys trwy waghau capelau Ymneillduol cymydogaethol. Y mae offeiriad arall yn cymharu trigolion cymydogaeth neillduol

### Yn y Darn Undodaidd

i fwncïod. Bu cryn lawer o siarad flynyddau yn ol fod dyn wedi dod o'r mwnci—nid un dyn, nac un dosbarth o ddynion, ond pob dyn. Nid Darwin ddywedodd hyn, ond y rhai a gamddeallant Darwin. Ai o'r mwnci y daeth dyn, ynte dyn yw dyn er dechreu ei yrfa yn mhell bell yn ol yn oesau y cynfyd, nis gwn, ac nis gwaeth genyf. Ond ymddengys y rhaid adolygu'r syniad uchod, a'i fynegi o hyn allan fel hyn—mai dim ond Undodiaid sydd wedi dod o'r mwnci. Nid oes genyf un gwrthwynebiad i hyn ychwaith—gwell genyf gydnabod y mwnci fel ein tarddell na llawer iawn o greaduriaid di-enaid ar ffurf dynion. Nid yw'r darddell, fodd bynag, o fawr bwys.

### Beth yw Dyn yn awr

sydd bwysig, ac nid beth fu. Ei safle foesol sydd yn penderfynu gwerth dy , ac nid o ba le y mae wedi tarddu, na'r enwad y perthyna iddo. Nid yw'r uchod ond ychydig o enghreifftiau o adfywiad yr ysbryd trahaus a'r ddichell offeiriadol wenwynig yn Eglwys Lloegr ein dyddiau ni fu yn nodweddau mor amlwg o'r Eglwys Rufeinig yn nyddiau ei rhwysg a'i gallu, ac a fu yn foddion i gadw Ewrop yn ei

hanwybodaeth a'i chaethiwed am y fath nifer o ganrifoedd. Y maent yn arwyddion nas gall y sawl a feddant wybodaeth beth yw ffrwyth anocheladwy goresgyniaeth offeiriadol lai na theimlo yn bryderus mewn perthynas iddynt.

SYLWEDYDD.

---

## YMSON Y MYFYRIWR.

FEL Cymro gwladgarol a thwymgalon, yr wyf yn ddarllenwr ffyddlawn a gweddol ofalus o bob peth yn y ffurf o lenyddiaeth a ddeil unrhyw gysylltiad â Chymru, â'r Cymro, ac â'r Gymraeg, ddaw o fewn cyrhaedd i mi. Nid wyf yn eithrio anerchiadau draddodir o flwyddyn i flwyddyn tua dechreu Mawrth—adeg dathliad coffadwriaeth

### YR ANFARWOL DDEWI SANT.

Bu'r dathliadau hyn eleni fel arfer yn achlysur lluaws o anerchiadau o bob math—llawer o honynt yn rai da, sylweddol, gwerth eu darllen, a thuedd ynddynt i wresogi calon y Cymro, a pheri iddo i fod yn falch o'i wlad enedigol; llawer o natur wahanol hefyd—ffroth areithiol yr hwn, pan y ceisiai'r darllenydd afaelyd ynddo, a ddiflanai fel ffroth ar wyneb y dwfr, heb adael ei gysgod ar ol. I'r dosbarth olaf y perthynai llawer o'r anerchiadau draddodid mewn gwleddoedd—nid gwleddoedd meddyliol, ond gwleddoedd bwyta ac yfed. Nid rhyfedd hyn: oblegid ni ellir disgwyl i areithyddiaeth godi lawer yn uwch na'r amgylchoedd. A chyda llaw, methaf weled un synwyr yn y dull hwn o ddathlu coffadwriaeth ein nawdd-sant, yr hwn (yn ol hyny o hanes sydd genyn am dano) oedd un o bersonoliaethau crefyddol mwyaf unrhyw oes. Yn mhlith yr anerchiadau o'r dosbarth cyntaf y cefais y fraint o'u darllen ddechreu Mawrth y flwyddyn bresenol, tynwyd fy sylw gan un yn arbenig—eiddo offeiriad—y Canon Edwards Rees o Fanceinion. Tebyg i hyn yw sylwedd yr hyn ddywedwyd ganddo:

"NODWEDD BARHAOL Y CYMRO

yw ei fod yn geisiwr am ddelfrydau, yn freuddwydiwr, yn welwr gweledigaethau, yn un a dreulia ei amser a'i yni yn yr ymchwil am rywbeth uchelach, mwy dymunol, na'r hyn a berthyn i fywyd materol dyn. Y mae'r Cymro yn un sydd yn gweled yfory yn mhob

heddyw, yn gweled y perffaith yn yr anmherffaith. Ac un o arwyddion gobeithiol ein hamser ni yw—fod y nodwedd hon yn cael ei diwyllio fwy-fwy." Ydyw'r geiriau hyn yn ddesgrifiad cywir o'r Cymro? Credaf eu bod; neu, yn fwy cywir, eu bod yn ddesgrifiad cywir o'r Cymro yn ei fan goreu. Ond mwy pwysig na'r desgrifiad o'r Cymro gawn yn y dyfyniad uchod yw'r sain brophwydol a rêd trwyddo. Beth yw sylwedd y brophwydoliaeth? Hyn: fod gobaith cenedl y Cymry yn ei gweledigaethau, yn ei breuddwydion, yn ei delfrydau. Ac arwydd galonogol iawn, medd y siaradwr, ydyw—fod ein cenedl, neu y dosbarth hwnw o'n cenedl ar yr hwn y mae ei dyfodol yn dybynu, yn dod i weled y gwirionedd hwn gyda golwg glirach fel y mae'r blynyddau yn treiglo ymaith. Nid yw ein cenedl yn fawr yn rhif ei phobl. Nid oes gobaith iddi ddod yn fawr yn yr ystyr hwn. Ond nid rhif pobl yw'r elfen flaenaf, bwysicaf, yn mawredd cenedl. Y mae rhif pobl yn elfen bwysig yn nerth milwrol gwlad neu ymherodraeth. Pan yr ymffrostiwn, fel y mae'r Prydeiniwr yn dueddol iawn i wneud, fod yr Ymherodraeth Brydeinig yn un o alluoedd mawr y byd, y mae rhif ei phoblogaeth (yn rhanol) mewn golwg genym. Y mae rhif ei phobl—oddeutu chwarter poblogaeth y ddaear—yn elfen bwysig yn ei nerth. Ond nid yw rhif ei phobl ddim os yn ddiffygiol mewn elfenau pwysig ereill.

### Am Ein Cenedl Ni,

fodd bynag, yr oeddwn yn siarad; a dywedaf am hon—y gall fod yn nerthol, yn allu yn y byd na faidd un genedl ei anwybyddu, er gwaethaf y ffaith nad yw yn genedl luosog. Pa fodd y gall ddod felly? Trwy fod ganddi weledigaeth glir ar ryw ddelfryd uchel; a thrwy ymdrech i gyrchu ati.

### Yn y Meddiant o Weledigaeth

o bethau gwell yn unig y mae bywyd a llwyddiant—yn yr ymgais ar du gweledyddion ein cenedl i'w harwain i fyny at y da, y gwell, y goreu. Yn y meddiant o ddynion o'r fath hyn y mae ein cenedl, drwy holl gwrs ei hanes, yn enwedig yn ystod y tair neu bedair canrif diweddaf, wedi bod yn neillduol o ffodus, megis Griffith Jones, Llanddowror, Williams Pantycelyn, Ficer Pritchard, Thomas Gouge, Thomas Charles, &c. Nid oes angen enwi rhagor. Y mae enwau ereill heblaw yr uchod yn llawn mor haeddianol o goffa. Y mae'r uchod oll yn perthyn i'r amser a fu. Ond y mae eu hysprydoedd wedi disgyn ar ereill i gario yn mlaen eu gwaith. Nis gallaf, pan yn ysgrifenu, ymatal rhag rhedeg dros eu henwau; a bûm bron dechreu eu hysgrifenu; ond cefais ras ataliol cyn dechreu. Nawr, ynte, dyma

### Ddelfryd Pob Gwir Gymro

mewn perthynas i'w wlad fechan—cenedl at yr hon y bydd holl

genedloedd y byd yn edrych i fyny gydag edmygedd. Y mae hyn yn burion. Ond rhaid cofio un peth yn ychwaneg—nad oes cenedl Gymraeg ar wahan i'r Cymro a'r Gymraes. Y person unigol yw sylfaen pob cenedl. A'r oll gyda'u gilydd sydd yn gwneud i fyny'r adeilad cyfan. Rhaid dechreu adeiladu cenedl y gellir edrych i fyny ati ar y sylfaen hon—sylfaen yr un person. Mewn geiriau ereill, rhaid i bob Cymro ofalu ei fod ef yn gwneud rhywbeth i ychwanegu at brydferthwch a chadernid yr adeilad. Yn ei erthygl dyddorol yn *Cymru* am fis Mawrth, edrydd Mr. Griffiths, Aberdar, yr ystori a ganlyn o un o weithiau Gerallt Gymro a ddysg yr un wers :—" Dywed [Gerallt] fod Harri III wedi gofyn i Gymro o Bencader os oedd ef yn meddwl y llwyddai y Cymry yn eu gwrthwynebiad i'r Brenin. Yr atebiad oedd—'O frenin, y mae yn bosibl i'r genedl hon yn aml gael ei gwanhau, a'i dinystrio yn rhanol gan eich galluoedd chwi, ac ereill, ond llawn mor aml, fel y teilynga, adgyfyd yn fuddugoliaethus. Ni bydd iddi byth

GAEL EI DINYSTRIO GAN LID DYN

os nad ychwanegir ato lid Duw.' " Nid hoff wyf o'r ymadadrodd " llid Duw " ; ond mae'r drychfeddwl tu cefn iddo yn wir, nid amgen na bod tynged pob cenedl yn ei llaw ei hun, ei bod yn meddu'r gallu i ymddyrchafu neu i ymostwng, yn ol fel y bydd yn ufuddhau neu yn anufuddhau i'r amodau. " Cyfiawnder (iawn-ymddygiad, ymgais am y delfrydol) a ddyrchafa genedl ; ond cywilydd pobloedd yw pechod (neu ddrwg-ymddygiad, neu foddlonrwydd ar yr isel a'r anheilwng)."

MYFYRIWR.

---

## YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU.

(PARHAD).

Fel yr amlygais yn fy llith ddiweddaf, aethum o Canada i'r Unol Dalaethau, fel pe bae,

DRWY DDRWS Y CEFN.

Y ffordd gyffredin yw glanio yn Boston neu New York, a myned yn mlaen tua'r Gorllewin i weled y wlad. Yn lle hyny dechreuais i fy nhaith oddeutu saith can' milltir tu hwnt i'r dinasoedd hyny. Er mai drwy ddrws y cefn yr aethum i mewn i'r werin-lywodraeth fawr Americanaidd, nis gallwn wneud yn well, er cael argraph ddymunol o'r wlad. Mae Detroit, i'r hwn le y croesais y ffin o Canada yn brif-ddinas Talaeth fawr a chyfoethog Michigan. Mae yn un o'r dinasoedd harddaf a welais yn

unrhyw wlad. Mae ei heolydd yn llydain, coediog a glân, a'r adeiladau cyhoeddus yn ddestlus nodedig. Sefydlwyd y lle yn gyntaf gan y Ffrancod, ryw gant a hanner o flynyddau yn ol, a bu am amser yn meddiant y wlad hon. Mae olion Ffrengig ar y lle hyd heddyw, a hyny yn neillduol yn moesgarwch y trigolion. Mae y brif heol, Woodward Avenue, yn bum milltir ar hugain o hyd, ac ar bob ochr iddi mae adeiladau gorwych yn ymgysgodi dan goedydd tewfrig. Yno mae eglwys hardd yr Undodiaid, wedi ei hadeiladu o dywodfaen coch, fel Eglwys Gadeiriol Caerlleon. Mae yr Undodiaid yn bobl ddylanwadol iawn yn y ddinas, fel y maent mewn llawer o fanau ereill. Gwir ddywed Robert Browning, y dylid

PWYSO ENEIDIAU

yn gystal a'u rhifo. Fel mae y ffasiwn yn ninasoedd mawrion America, yr oedd y gynulleidfa a'i gweinidog ar eu gwyliau yn Awst a Medi, ac felly ni chefais y fraint o addoli gyda hwy. Er fod Woodward Avenue gymaint o hyd ni chymer ond oddeutu awr o amser i fyned o un pen i'r llall iddi gyda'r *electric cars*. Yno gwelais y frongoch Americanaidd gyntaf, a chefais beth syndod gan ei hymddangosiad. Mae oddeutu yr un faintioli ag aderyn du y wlad hon. Nid yw agos mor barchus a'r frongoch Brydeinig, am ei bod yn gwneud difrod mawr ar ffrwythau'r gerddi. Nid oes un aderyn Prydeinig wedi bod yn llwyddiant mawr yn America ond yr aderyn tô. Dywedwyd wrthyf yn Quebec, pe byddai ymfudwyr dynol o Brydain wedi bod mor llwyddianus ar y Cyfandir Americanaidd a'r aderyn tô a dant y llew, ni fuasai ganddynt lawer o le i achwyn. Mae afon Detroit yn llinell gydiol rhwng y ddinas a llynoedd eang St. Clair, Huron ac Erie, ac o'u glanau daw triugain mil o longau bob blwyddyn yn llwythog gan gynyrch y wlad, megis ŷd, copr, halen, ac amrywiaeth mawr o nwyddau ereill. Daw Woodward Avenue i lân yr afon, ac ychydig yn uwch i fyny mae y Campus Martius, ysgwâr fawr yn addurnedig gan gofgolofnau cenedlaethol, y rhai a roddant ymddangosiad mawreddog neillduol i'r lle. Yno mae eglwys fawr a hardd yr Universalists, enwad tra lluosog yn America, o syniadau cyffelyb i eiddo'r Undodiaid. Ar y cyntaf, eu prif nodwedd oedd eu hathrawiaeth o

ADFERIAD CYFFREDINOL,

fel gwrthdystiad yn erbyn yr hen syniad o Gospedigaeth Dragwyddol. Rhoddent bwys arbenig ar Dadol Gariad Duw. Ar y pwnc hwn, ac mewn pob pwnc arall o bwys y maent hwy a'r Undodiaid yn cydweled yn llwyr.

Yr oeddwn yn digwydd bod yn Detroit ar ddydd Sul, a chan nad oedd gwasanaeth yn yr eglwysi Undodaidd aethum i addôli gyda'r Trefnyddion Esgobaethol yn eglwys Dr. Leete, a chefais wir adeiladaeth yno. Pregethodd y gweinidog yn darawiadol iawn ar y testun, "Afalau aur mewn basgedi arian." Yr oedd newydd ddychwelyd o'i wyliau er mwyn cadw ei eglwys yn agored pan fyddai ereill yn nghau. Er fod yr hin mor boeth yr oedd yno gynulleidfa fawr, ac yr oedd yn amlwg fod aelodau eglwysi ereill wedi dyfod yno i addoli y boreu hwnw. Mor gynted ag oedd y gwasanaeth drosodd ffwrdd a'r gweinidog ar frys drwy ryw lwybr dirgel at ddrws yr eglwys, yn barod i siglo llaw a'r bobl a dweyd gair cymhwys o roesawiad wrth bawb. Ni welais neb yn ymadael heb y cyfarchiad brawdol hwn. Wedi gorphen cyfarch eu gilydd ymffurfiodd yr holl gynulleidfa, yn unol a chais y gweinidog, yn ystod y gwasanaeth yn Ysgol Sul, am yn agos i awr o amser. Gan fod y mwyafrif yn dyfod o bellder mawr yr oedd pawb felly yn cael y fraint o fynychu yr Ysgol Sul yn gystal a'r gwasanaeth boreuol. A'r fath Ysgol Sul! Yr oedd yn olygfa

hardd iawn i weled pawb—pob gradd ac oedran yn ymffurfio yn ddosbeirth er mwyn astudio'r Ysgrythyrau. Teimlwn y byddai yn fendith fawr i lawer o gynulleidfaoedd gwasgaredig Cymru pe mabwysiadent yr un drefn. Yn y prydnawn gwelwn fod yr holl bobl yn myned yn yr un cyfeiriad, sef tua'r afon, ac aethum gyda hwynt, heb wybod, pan gychwynais, i ba le yr oeddynt yn myned; ond yn fuan cefais ar ddeall eu bod yn bwriadu treulio y gweddill o'r dydd ar ynys hardd Belle Isle. Aethum gyda rhan o'r dyrfa ar un o'r agerlongau, a glaniasom yn mhen ychydig fynudau ar le gwir baradwysaidd. Mae yr ynys wedi ei threfnu yn hardd dros ben fel Parc perthynol i'r ddinas. Brithir y lle gan welyau o flodau amryliw, ac yn eu plith y *salvia* a'r *canna* yn eu gwisg o ysgarlad. Yn mhob cyfeiriad cysgodir y llwybrau gan goedydd llathraidd. Gan fod yr hin yn hynod boeth y diwrnod hwnw yr oedd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr naill ai *ar* neu *yn* y dwfr. Ar yr ynys cedwir pob math o wylltfilod mewn caethiwed, ac wrth edrych arnynt teimlwn beth dychryn wrth feddwl am beryglon yr ymsefydlwyr cyntaf yn y wlad. Tebyg iawn y daw'r dydd pan na fydd un cynrychiolydd byw o'r creaduriaid hyn ar wyneb y ddaear. Dywed un awdwr enwog, fod creaduriaid ysglyfaethus yn

### Gysgod o'r Nwydau Dynol.

Fel mae y llew a'r teigr yn encilio o flaen yr hil ddynol, felly bydd i nwydau dyn ddiflanu ar ddyfodiad teyrnas nefoedd. Yna daw holl deyrnasoedd y ddaear yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist Ef.

Yn y flwyddyn 1900 yr oedd poblogaeth Detroit yn agos i dri chan mil ond mae wedi cynyddu llawer oddiar hyny. Goleuir y ddinas gan oleu trydanol, a sicrheir y lampau yn yr heolydd ar golofnau haiarn heirdd o 150 i 175 o droedfeddi o uchder. Y canlyniad yw nad oes fawr wahaniaeth yno rhwng canol nos a chanol dydd. Dymunwn aros ychydig ddyddiau yn rhagor yn y ddinas brydferth hon, ond yr oedd yn rhaid i mi fyned yn mlaen.

Yr oedd fy nhaith nesaf, sef o Detroit i Chicago yn 270 o filltiroedd. Tra parhäai goleu ddydd yr oedd yn wir ddyddorol. Yr oedd yn rhaid croesi Talaeth Michigan o ben bwygilydd, ac ar bob llaw yr oedd grân anghyffredin o lewyrchus ar amaethyddiaeth y wlad. Yr oedd yr ŷd braidd i gyd wedi ei fedi a'i ddyrnu ar y maes, ac yr oedd y gwenith i'w weled fel

### Pyramidau o Aur

yma a thraw, gan ei fod eto heb ei gywain i ddiddosrwydd yn y *corn elevators*, y rhai a welid ar lanau'r afonydd a'r llynoedd a gerllaw gorsafoedd y rheilffordd. Yr oedd y gwellt mewn manau fel cymylau euraidd yn gorphwys ar y ddaear yn barod i osod tân ynddo, ar ol diddosi'r gwenith a chasglu'r *Indian Corn*. Wrth braidd bob ffermdy mae rhod wynt i bwmpo dwfr o'r pydewau. Yr oedd yn amlwg i mi fod y wlad ar un amser yn goediog iawn, ond nid oes llawer o goedydd ar ol ond mewn tir diffrwyth yma ac acw. Mae y cloddiau, os priodol yr enw, wedi eu gosod wrth eu gilydd yn dra chywrain yn debyg i res o glwydi cryfion—yn wahanol i ddim a welais mewn gwledydd ereill. Dywedir nad oes eto lawer o eisieu cyfnerthu y ddaear ag achles yn y rhan fwyaf o feusydd Michigan, gan fod ffrwythlonedd gwreiddiol y tir yn parhau. Ond mewn manau nid yw felly, ac mewn canlyniad mae llawer o amaethwyr Americanaidd yn dewis ymfudo i Ogledd Orllewin Canada i wlad newydd. Yno nid oes llawer o anialwch i'w glirio na fawr o lafur yn angenrheidiol nes daw y tir dan driniaeth briodol. Er hyny ymddengys fod adnoddau amaethyddol Michigan, Illinois, Wisconsin a Thalaethau ereill yn anhysbyddadwy. Ar y trên gweinid ar y teithwyr gan Negroaid

o'r Deheudir, a gwnaent eu gwaith ar y cyfan yn foesgar a threfnus. Cyrhaeddasom Chicago yn drahwyr, ond yno yr oedd masnach mor fywiog braidd ag ar haner dydd. Saif y ddinas ar gŵr Gogledd-ddwyreiniol Talaeth Illinois, ar lan llyn Michigan yr hon yw yr eangaf o holl lynoedd America. Chicago yw yr ail ddinas —nesaf at New York—mewn poblogaeth a phwysigrwydd yn yr Unol Dalaethau. Erbyn hyn mae y boblogaeth yn agos, os nad llawn, dwy filiwn, a siaredir yno yn gyffredin bedair-ar-ddeg o ieithoedd. Yn hyn adgofiai fi o Vienna. Nid oes ond rhyw un yn mhob saith o'r trigolion yn frodorion. Ymfudwyr o wledydd ereill yw y gweddill. Ymestyn y ddinas ar lan y llyn am chwech milltir ar hugain, ac yno yn wynebu a'r dwfr mae y rhan fwyaf o'r adeiladau goreu. Yn eu plith mae yr Auditorium Hotel lle yr oeddwn yn aros—y gwesty mwyaf, mae yn debyg yn yr holl fyd. Mae yn y neuadd gysylltiedig ag ef le i eistedd i bum mil o bobl. Mae yr adeilad dros ugain uchder lloft, ac ar bob llawr mae lamp goch yn llosgi nos a dydd i ddangos y ffordd i ddianc pe byddai tân yn tori allan. Nid yw y rhybudd hwn yn rhyw gysurus iawn. Mae yr adeilad mawreddog hwn yn dref ar ben ei hun.

Gorchuddia y ddinas 187 o filltiroedd ysgwar ac mae yno amryw Barciau lle yr ä amryw o'r trigolion i ymblesera pan nad ydynt yn cymeryd rhan yn y rhedegfa ffyrnig am gyfoeth. Mae Parc Lincoln a Parc Jackson yn lleoedd hardd nodedig.

Lle peryglus yw Chicago i bobl anmhrofiadol o'r wlad. Mae yno oddeutu deugain mil o bobl yn enill eu bywioliaeth wrth ladd creaduriaid a dim ond hyny, a dywedir fod hyn yn dylanwadu yn ddrwg iawn ar eu moesau ac na phrisiant fywydau dynol fel y dylent. Yn amryw o'r prif heolydd mae *electric cars* tanddaearol, ereill ar y wyneb, a thrydydd uwchben, ac mae y cerbydau bob amser yn llawn, ac yn teithio gyda chyflymdra o bum milltir ar hugain yr awr. Mae pawb yn brysio fel bai eu holl amcan i wneud arian. Treuliant eu bywyd felly am wyth mlynedd ar gyfartaledd, ac yna ymneillduant i ryw fan tawel i fwynhau eu cyfoeth os byddant wedi llwyddo i'w gasglu. Felly mae yn amser tra ansertenol i'r eglwysi, gan fod y boblogaeth yn myned a dyfod yn barhaus. Mae yno amryw Eglwysi Undodaidd ond yr oeddynt oll ar eu gwyliau pan oeddwn i yno. Mae gan yr Undodiaid swyddfa fawr yno, nid anhebyg i'r Essex Hall yn Llundain, lle y dosberthir llenyddiaeth yr enwad ac y cyferfydd gweinidogion ac ereill i ymgynghori yn nghylch lledaeniad ein hegwyddorion.

Ymwelais ag un o'r gweinidogion sef y Parch. W. H. Pulsford, M.A., yr hwn oedd yn gyd-efrydydd a mi yn Mhrifysgol Glasgow. Yr oedd ei dad, Dr. William Pulsford, yr amser hwnw ac am flynyddau wedi hyny yn weinidog ar yr Eglwys Annibynol yn Glasgow lle mae yr enwog Dr. John Hunter wedi bod yn gweinidogaethu am y chwarter canrif diweddaf. Mae gan y

PARCH. JENKIN LLOYD JONES

gymdeithas lewyrchus yn Chicago, yn debyg i'r hyn a feddylir yn Lloegr wrth *Institutional Church*, lle gwneir pob peth sydd yn ddichonadwy er dyrchafu moesau y ddinas a rhoddi llaw o gymorth i'r gwan a'r anghenus. Mae Mr. Lloyd Jones yn boblogaidd iawn, ac yn haeddianol felly. Mae pob peth yn Chicago ar raddfa eang neillduol. Un o gymwynaswyr penaf y ddinas yw Mr. J. D. Rockfeller y miliwnydd, i'r hwn mae y Brifysgol yn ddyledus braidd am ei bodolaeth. Yn awr, drwy haelfryddedd tywysogaidd y gwr hwn, mae Prifysgol Chicago yn un o'r sefydliadau addysgol blaenaf yn y byd, ac mae yr adeiladau a'r cyfleusderau at gyfranu addysg yn odidog iawn. Oddiwrth hyn gwelir nad yw'r awydd am gyfoeth yn taflu pob peth arall i'r cysgod. Mae yno *Fine Art Galleries*, lle mae arluniau a cherfwaith

gwerthfawr, a Llyfrgell Gyhoeddus sydd wedi costio haner miliwn o bunau. Yno yn y Parciau ac ar fanau mwyaf cyhoeddus drwy'r ddinas, mae cerfluniau ardderchog o arwyr ac enwogion y wlad. Felly mae yn amlwg nad yw y trigolion wedi ymroddi yn gyfangwbl i addoli'r llo aur.

Fel mae yn wybyddus, un o neilldduolion masnachol Chicago yw y drafnidiaeth mewn cig. Dywedir fod peirianau wedi eu perffeithio i'r fath raddau, fel y gyrir haid o foch i mewn i un pen i'r peiriant a deuant allan yn *sausages* parod o'r pen arall; ond gan na welais y peth yn cael ei wneud nis gallaf dystio am ei wirionedd. Dywedir fod Chicago yn cael ei chyflenwi â'r dwfr puraf o holl ddinasoedd y byd. Codir ef i gyd o'r llyn gerllaw.

Yn ystod fy arosiad yno cefais y pleser o gyfarfod â theulu ag oeddynt wedi eu dwyn i fyny yn fy eglwys yn Bradford. Yr oeddynt wedi dod o bellder mawr er mwyn fy ngweled; ac yr oedd cael ymgom am yr hen amser yn bleser mawr iddynt hwy a minau.

Ni hoffwn aros yn hir yn Chicago, pe bai hyny yn ddichonadwy, gan fod y lle mor drystfawr a bywyd yno mor ddiorphwys.

Felly nid oedd yn anhawdd genyf ganu'n iach i'r lle. Teimlwn ei bod yn anmhosibl sylweddoli yr hyn sydd oreu mewn bywyd, mewn lle fel Chicago.

E. CEREDIG JONES.

---

## AR BONT CAPEL CYNON.

(PARHAD).

Ar y Sul, canai gloch yr Eglwys Fach, fel ei gelwid, yn herwydd bychander yr adail a'r gynulleidfa. Ar aml fore Sabboth, a'r offeiriad, druan, wedi cerdded milldiroedd lawer i'r cwrdd, ac yn dadluddedu ei hun ar ris y pulpud bach, canai Dafydd y gloch yn hyglyw ac amyneddgar. Clochdy bychan a bregus oedd i'r eglwys, ac ar fwy nag un achlysur cofus gan yr ardalwyr i Dafydd ganu yr hen gloch mor hir ac mor effeithiol nes ei thynnu i lawr yn garlibwns, er dirfawr berygl i'w goryn moel. Ond os cawsai ddwsin o'r plwyfolion i ufuddhau i alwad y gloch, teimlai ei fod wedi gwneud gwaith da am y dydd.

Ac eto, adail gysegredig yw'r Eglwys Fach; pa mor hen yw, nis gwn; ond fod eglwys yn sefyll ar y fan fil o flynyddau'n ol sy'n dra sicr; a mynn traddodiad ddarfod i Harri y Seithfed gymuno yma ar ei ffordd i Faes Bosworth. Nid wyf yn malio ffeuen p'un ai gwir ai anwir yr hanes am Harri VII.; y miloedd ardalwyr dinod fu'n penlinio wrth yr allor hynafol, ac yn yfed o'r cwpan cysegredig o dan y nenfwd moel a garw, hwy sydd wedi gwneud y lle yn santaidd i fy ngolwg i. O flaen y gangell lychlyd hon efallai y safai gynt fy ngor-hendaid yn ei ienctyd hoew, ond yn crynnu fel aethnen y bore hwnw wrth arwain ei rian wledig at allor yr Eglwys Fach. Yma'm dygwyd gyntaf erioed i le o addoliad yng nghol fy mam; yma'r wylais gan ofn am fod yr offeiriad yn chwareu ei ddyrnau arnaf o'r pulpud mawr; ac yn yr hen gorau pryfedog yr eisteddwn yn hogyn bach i

ddysgu'r egwyddor Gymraeg, er's llawer dydd.

O fy hen Gymraeg! bratiog ddigon yw dy wisg; ond can mwy tyllog fai dy garpiau oni bai am y gwersi gefais ar fore Sul yng nghorau Eglwys Capel Cynon. Trysorau na chollaf fyth yw brawddegau grymus a soniarus y Llyfr Gweddi Gyffredin a gynhenid gynt mewn llais dwfn a thrwynol gan yr hen offeiriad anwyl ar brynhawnau Sabboth yn y pulpud bach.

O fy hen Gymraeg! ofnadwy yw'r llurgunio sydd arnat ym mhulpudau Cymru heddyw. Gwerthwn yr holl syniadau diwinyddol diweddar a bregethir yn ein gwlad am ychydig o groyw-win cynhennid yr hen iaith yn ei bri. Bregethwyr ac offeiriaid Cymru Sydd, meddyliwch am yr eneidiau gollir yn herwydd erchylder eich Cymraeg.

I Ddafydd y Clochydd yr wyf yn ddyledus am fy nghydnabyddiaeth â llyfr arall sydd wedi bod o help mawr i gadw'r hen iaith yn fyw yn fy nghof ac yn fy nghalon. Ar ei ffwrwm waith, mewn cofr croen seimllyd, a'i ddail yn fratiog a rhydlyd, yr oedd copi o'r *Bardd Cwsg*. Darllenais y llyfr lawer gwaith, yn yr adeg honno ar fywyd pan nad oes llinell derfyn yn gwahanu ffaith a dychymyg; pan y mae'r nefoedd yn ardd flodeuog tuhwnt i'r darn o awyr las sydd uwchben y mynydd acw; a phan y mae tarth y dyffryn draw yn fwg a gyfyd o annwn, ddryglam ddreigle! sy'n bodoli fel ffwrnes danllyd nepell o wyneb y ddaear. Lawer i brynhawn o haf hir-felyn tesog y gorweddais ar feillion y cae, yn bugeilio'r gwartheg (neu o leiaf tybid fy mod) ac yn darllen am weledigaethau tanbaid yr hen offeiriad anfarwol o Lasynys. Flynyddau lawer wedi hyn, a Dafydd y Clochydd wedi ei briddo ers talm o amser, adroddwyd imi gan hen gymydog iddo hanesyn am ryw wr dieithr fu'n galw yn y Grange Inn ar ei daith o ardal y Ceinewydd i Landyssul. Gwelodd y gŵr hwn gopi o'r *Bardd Cwsg*, ac ar unwaith cynhygiodd i'r tafarnwr gopi newydd spon yn ei le. Ond ni fynnai'r clochydd daro'r fargen. Dro wedi hyn, daeth yr un gŵr dieithr heibio eilwaith, a chynhygiodd eto bris da am y llyfr di-olwg; ond gwrthododd y tafarnwr ymadael a'r hen gyfrol fratiog. "Os yw yn werth hyn a hyn i chwi" meddai wrth y dyn o bell, "mae'n werth hyn a hyn i finnau, a dyna ben arni."

Cafodd allan rywfodd neu gilydd mai bardd oedd y gŵr dieithr hwn, un Daniel Las, o Lanarth; ac i'r Clochydd, ac i'r hen gymydog adroddai'r hanes imi, nid oedd Daniel Las ond enw ar ryw fod rhyfedd a chyfrin a ddaethai allan o un dirgelwch i ddiflannu eto i ddirgelwch mwy. Wrth gwrs, gwyr y darllenydd ar unwaith nad oedd y bardd a grwydrai drwy Gapel Cynon neb llai na'r hyglod Silvan Evans; a thua'r amser hwn, yn ddiamheu, yr oedd yn prysur baratoi ei argraffiad ei hun o *Weledigaethau'r Bardd Cwsg*.

Mor bell ag wyf yn cofio, o law Dafydd y Clochydd hefyd y derbyniais, a hynny fel ffafr arbennig, y llyfr Saesneg cyntaf a ddarllenais erioed gyda blas. Ystori ferr ydoedd, hanes rhyw hogyn drwg wedi dwyn afalau, neu wedi cyflawni rhyw droedd ysgeler tebyg, ac wedi ffoi oddiwrth ei rieni. 'Rol treulio rhai nosweithiau mewn coedwig wyllt a dieithr, a newyn a bwystfilod rheibus ar roddi terfyn ar ei hoedl, gwel o'r diwedd oleu gwan yn y pellder; ac at y goleu hwn y tynn, yn flin, a lluddedig, ac edifeiriol. Yn fuan daw at ddrws bwthyn cysurus wrth ymyl y goedwig; ac wrth gwrs yno y preswylia ei fodryb hir-golledig. Gwasg ei nai cyfeiliornus at ei mynwes; yn y bore dychwel y ddau i dŷ ei dad; mae'r afradlon edifeiriol yn derbyn maddeuant, a phawb yn byw yn hapus byth mwy.

Ystori'r Ysgol Sul o'r fath waethaf oedd, mae'n ddiamheu gennyf heddyw; ond cefais i fwyniant mawr o honi; a bendithiaf yr eneth ddidalent a'i hysgrifenodd; a'r foneddiges hael a'i prynodd i'w roddi yn anrheg i Dafydd; ac i'r hen saer

gwledig a'i cadwodd yn barchus rhwng yr offer ar ei ffwrwm waith.

Tu allan i furiau hynafol yr Eglwys Fach, lle tyf y borfa hir yn nhymor haf, ac ambell i flodeuyn dant y llew yn pelydru ei aur yn y glaswellt, o dan dwmpath gwyrdd di-gofnod y gorwedd Dafydd y Clochydd. Mae wedi ei anghofio eisioes gan y dyrnaid o ffyddloniaid gwledig a fynychant yr hen eglwys ar brynhawnau Sul.

Cân y fwyalch eto yn yr ywen ddechreu Ebrill ; daw'r aderyn du i ganu ar gangau'r pinwydd yn nyddiau cynnar gwanwyn ; cwyd yr ehedydd i'r glas dilychwin uwch y fan ar doriad gwawr ; ond mae Dafydd yn cysgu'n dawel. Tyrr fiwsig o rydiau'r afon islaw ; siffrwd gwynt y de rhwng drain a helyg cloddiau'r fynwent ; uda ystormydd y gaeaf drwy y coed ; rhua'r taranau'r haf yn yr wybren ddu uwchben ; ond dan ei dwmpath gwyrddlas, di-dor yw hun y Clochydd.

Ffarwel, Dafydd, aethost drwy y byd mawr llydan heb i nemor o neb dy weled y tu allan i'r llwybrau culion a gerddaist ; tramwyaist ffyrdd dinodedd ; teithiaist fannau anhygyrch daear ; a chyrhaeddaist yn y diwedd yr un terfyn a'r oll o urddasolion byd. Cefaist olwg ar dy gongl fechan dy hun o'r greadigaeth ; ac ni chaiff bardd y canrifoedd nag athronydd yr oesau ddim rhagor. Ereill orweddant o fewn muriau cedyrn yr eglwys fawr gadeiriol, lle'r adsain clodydd cenedlaethau rhwng y colofnau marmor. Cerfiwyd eu henwau ar feini ithfaen ; ond mewn cread o le diderfyn ac amser diddarfod, mae'r llythrennau ar yr ithfaen yr un mor ddiflan a'r blodau dant y llew ar y twmpath gwyrdd, dan yr hwn y gorwedd Dafydd y Clochydd. Ffarwel, Dafydd, buasai'r byd mawr wedi ymdreiglo yn ei flaen hebddot ; ond i'm bydysawd i buost o bwysigrwydd mawr ; mae'r greadigaeth i mi yn dra gwahanol am ddarfod i hen Glochydd hynod Capel Cynon fwrw ei bedwar ugain mlynedd o'i mewn.

Ffarwel, Dafydd ; pe medrwn, mynwn le i ti ymysg anfarwolion yr oesoedd ; ond gan nad yw hynny o fewn fy ngallu, ni fedraf wneud rhagor na thywallt y deigryn olaf ar dy fedd. Mae pawb ond myfi wedi'th anghofio ; ac wedi fy ngado, nid oes ond yr hen binwydden lwyd ei barf yn aros i ddyferu ei galar ar y fan lle gorwedd dy lwch. Ffarwel, Dafydd !

(*Pw barhau*).

---

## GWRONIAID Y MANNAU CUDD.

(PARHAD).

IV.

Mam mewn ystafell ddi-ddodrefn
A gofid ei hoes yn drwm,
A lleisiau ei phlant yn wylofus gri
Yn llanw y bwthyn llwm.
Gwag yw y gadair freichiau,
Llawn yw y bedd dan y coed,
Ac nid yw'r hynaf o chwe' o blant
Eto yn ddeng mlwydd oed.

Gweithia drwy hirion oriau
Er chwyddo ei chyflog fach,
Gweithia yn hir wedi oriau gwaith—
Gweithia yn hanner iach.
Daw'r wawr i'r ffenestri di-lenni,
Daw'r oerwynt drwy wydrau sarn,
Ond deil yn ffyddlon mewn blinder mawr
I wnio darn ar ol darn.

Bychan fydd cyflog wythnos
Wedi y gweithio di-flin,
Chwareua pryder fel cysgod barn
O amgylch ei gwelw fin.
Daw oerwynt y gauaf i'r bwthyn,—
Saif hi rhwng y gwynt a'r plant,
Daw newyn i'r bwthyn ar lawer hwyr
Heb grystyn i'w gadw bant.

Rhaid cadw 'rhai bach o'r Tyloty,
A'r dirmyg sydd wrtho ynglyn,
Rhaid gweithio hyd farw er mwyn y plant—
A gweithio heb gymorth un dyn.
Disgyna niwloedd marwolaeth
Yn drwch ar ei harlais wen,
Disgyna'r eira'n gawodydd oer
Ar felyn-aur wallt ei phen.

Geilw y plant un bore,—
Nis etyb fel arfer eu llef,
Ni thynnir y llenni'n arwyddion loes
Dros wychion ffenestri'r dref,
Cleddir hi heb un blodyn
I harddu ei beddrod llaith,
Nid oes ond ei phlant yn teimlo'n brudd,—
Nid oes ond y pridd dan ei graith.

Ni sonia'r papurau am dani,
Ni sonia neb am ei gwerth,—
Y cariad fu'n ysu ei thyner fron,
Wybu y ddaear mo'i nerth.
Gofala'r Plwyf am ei chladdu,
Fe dâl y Plwyf am ei harch,
A theflir y cerrig oerion i'r bedd
Gan ddwylaw celyd, di-barch.

Pwy omedd i mi ar yr aelwyd
Gofio ei gwelw rudd—
Pwy omedd im' osod ei henw i lawr
Gydag arwyr y mannau cudd?

V.

YMLWYBRAI y llong dros y tonnau
Drwy ganol cyfandir o ia,
Heb neb yn pryderu ar frig y don,
Heb neb yn breuddwydio am bla.
Chwareuai y llanciau hoew,
Canai y teithwyr mewn hoen,
A llawer un gyda'i gofion per
Ymhell o gyffiniau Poen.

Yn sydyn daeth gwaedd, a rhuthr,
Ac ofn i wynebau'r llu,
A'r tonnau esmwyth godai yn uwch,
A'r nos yn fygythion o ddu.
"I'r badau!" oedd gwaedd y capten,
"I'r badau a'r gwragedd a'r plant,"
A'r badau llawnion o un i un
Lithrai yn esmwyth bant.

Daeth cyfle hen forwr di-enw
I gymryd ei le yn y bad.
Ond cofiodd am gyfaill adawodd
A phlant ar ei ol yn y wlad; [wraig
"Dos di i'r bad," ebai'n dawel,—
"Cofia dy blant a'th wraig,
Cymrodyr i mi yw y tonnau oer,
Cartref i mi yw yr aig."

Golchodd y donn dros y byrddau,—
Suddodd yr arwr i'r donn,
Cauodd y tonau esmwyth yn llaith
Am wroniaeth ei gynnes fron;
Wyr undyn beth ydoedd ei enw,
Na pheth oedd ei hanes chwaith,
Wyr neb ei helyntion ar dir na môr,
Na throion dyrus ei daith.

Wyr neb beth ydoedd ei gredo,
Na'i broffes ar fôr na thir,—
Ond gwyddom fod arwyr y ddaear
I ddod i'w gorseddau cyn hir; [fawr
Rhoddodd ei le i arall
Heb ddeigryn yn golchi ei rudd,
Pwy omedd im' enwi hen forwr fel hyn
Gydag arwyr y mannau cudd?

VI.

Trof i'r mynwentydd di-golofn,
I oedfa'r marwolion di-glod,
Nid ydyw Celf a'i cherfiadau gwych
I ffiniau'r distawrwydd yn dod;
Rhodiaf ym mysg y beddau,
Darllenaf ddamhegion y gwellt,
Uchelgais y galon—ar feddau llwm
Chwelir ei balchder yn ddellt.

Fan yma mae tad yn huno
Gariodd groesau ei âch,
Gwasgodd ei gusan ar fin ei ferch
A'r bwlch yn ei gwefus fach;
Wylodd ei galon allan.
Treuliodd ei nerth yn lân
Cuddiwyd ei obaith yn y donn,—
Llosgwyd ei serch yn y tân.

Fan yma mae beddrod y proffwyd
Ddywedodd y gwir wrth ei oes,
Dallwyd ei lygaid yn stormydd byd,
Crymodd ei gefn dan y groes ;
Chwalodd gredoau di-gariad,
Darniodd allorau di-Dduw,
I'r achos goreu ar hyd ei oes
Heb ofn yr erlidiau bu fyw.

Hawdd marw yn swn y magnelau,
Hawdd taro yn erbyn y cam,
Hawdd cerdded yng nghanol ban-llefau torfeydd
Yn ferthyr y nef i'r fflam ;
Caled—dan ddirmyg y dyrfa
Yw byw i'r goreu'n y tir,
Yn stormydd yr erlid felused cael
Gwron yn byw y gwir.

Huna ! a thery rhagfarn
Ei throed ar ei feddrod plaen,
Ond cenfydd gobaith angylion y nef
Yn tyrru o hyd i'r maen.

Fan yma mae hen amaethwr
Yn huno ar ol ei waith,
A blodau'r nef yn encilion y wlad
Yn tyfu'n wyn ar ei daith :
Teimlodd symbyliad uchelgais,
Clywodd alwadau o bell,
A'r cyfan yn galw'r amaethwr ymlaen
I ffiniau ei Ganan well.
Ond gweithiodd yn ardal ei faboed,
Triniodd dyddyndy ei dad.
Ac yno collwyd ar gwysi oer
Arlunydd neu fardd i'w wlad.

Fan yma mae geneth fach anwyl
Yn huno dan gysgod y coed,
Cyrhaeddodd i'r fynwent pan ydoedd
Y gerddi yn dyfod i'w hoed ;
Ni phrofodd ddiwrnod o iechyd,
Ni theimlodd un awr o fwynhad,
Ond hi ydoedd cysur yr aelwyd fwyn
A heulwen ei mam â'i thad.
Mor dawel yng nghanol y poenau,
Mor ddifyr yng nghanol y loes,
Heb fanllef y dyrfa am flwyddi hir
Cariodd ei garw groes.

Glas yw tywarchen ei beddrod,
Fel cofion tyneraf serch,
Yn adfyd y ddaear tu yma'r bedd
Cofir gwroniaeth y ferch ;
Yn oedfa ddi-gyffro marwolaeth
Rhodiaf yn welw fy ngrudd,
Rhifaf yn niwloedd y fynwent fawr
Wroniad y mannau cudd.

(*Pw barhau*).

---

## CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yr uchod yn nghapel y Graig, Llandyssul, dyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 1 a 2, 1913. Yr oedd yn llawenydd mawr i ganfod fod y cyfarfodydd hyn yn parhau yn eu poblogrwydd, ac nad ydyw y sêl a'r brwdfrydedd cyntefig wedi diffodd yn llwyr o'n plith. Heblaw y gweinidogion, rai o honynt ddaethant o gryn bellder, yr oedd yn bleser gweled aelodau blaenllaw ein gwahanol eglwysi wedi dod yn nghyd ar draul llawer o aberth iddynt eu hunain. Ond dyna, nid oes gwasanaeth gwirioneddol o hyd heb fod aberth yn cydfyned ag ef.

Dechreuwyd y gyfres gyfarfodydd nos Fawrth, drwy ddarllen a gweddio gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, a phregethwyd gan y Parchn. J. Carrara Davies, Cefncoedycymmer, a Lewis Williams, Rhydygwin. Cafwyd dwy bregeth ymarferol a gafaelgar, ac ynddynt lawer o'r peth byw apelia at gynulleidfa Gymreig bob amser.

Boreu dydd Mercher cynhaliwyd y Pwyllgor, gweithrediadau yr hwn welir ar ddiwedd yr hanes hwn. Dechreuwyd y gwasanaeth dilynol gan Mr. Cellan Evans, o Goleg Caerfyrddin, ac yna pregethwyd yn ei ffordd effeithiol ei hun, gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Yna cymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., ac wrth gyflwyno Mr. Charles Hawksley, Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, i'r gynulleidfa dywedodd ei fod yn un o'r rhai hyny y cyfeiriodd Esgob Llundain atynt yn ddiweddar—"Nid oes yna gymdeithas o bobl fwy haelionus a charedig yn y byd na'r Undodiaid, ychydig fel ag ydynt, ac yr wyf am gydnabod yn rhwydd haelioni rhyfeddol yr enwad Undodaidd a'r gwaith dyngarol wnant." Soniodd Mr. Evans hefyd am y traddodiadau cysegredig oedd yn gysylltiedig ag Undodiaeth yn Llandyssul a'r ardal, ac adgofiodd y gynulleidfa am wasanaeth mawr Gwilym Marles, Thomas Thomas, a William James.

Mewn atebiad amlygodd Mr. Hawksley ei hyfrydwch o fod yn bresenol yn nghyfarfodydd Undodiaid Ceredigion. Yr oedd yn llawenydd ganddo weled brwdfrydedd a nerth yr enwad yn Sir Aberteifi, a diolchai yn gynes am y cyfleusdra hwn i wrando arnynt yn canu eu hemynau Cymraeg hwylus. Yr oedd lles goreu yr eglwysi Cymreig yn agos at galon y Gymdeithas gynrychiolai, ac yr oedd yn falch i'w cynorthwyo yn mhob modd. Cefnogai yn galonog y symudiad ar ran pobl y Graig, Llandyssul i adeiladu Neuadd at wasanaeth yr Ysgol Sul, gan ei bod yn anmhosibl i gario y gwaith yn y blaen heb y cyfleusderau angenrheidiol. Llefarai yn uchel am frwdfrydedd y gynulleidfa yn cyfranu £400 o honynt eu hunain at y mudiad. Diolchwyd yn gynes i Mr. Hawksley am ei ymweliad a'i anerchiad gan y Gweinidog a'r Parch. R. J. Jones, M.A.

Yn y prydnawn dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. R. C. Jones, a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., ac yn y Gymraeg gan y Parch. R. J. Jones, M.A. Dechreuwyd y gwasanaeth yn yr hwyr gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parchn. J. Park Davies, B.A., B.D., Pontypridd, a Simon Jones, B.A., Abertawe. Cafwyd cynulliadau rhagorol yn yr holl gyfarfodydd, pregethau meddylgar a hyawdl a chanu hwylus dros ben. Dymunem ddiolch i bawb dieithriaid ymwelodd â ni, y pregethwyr fu yn gwasanaethu, a'r cyfeillion yn y Graig fu'n llafurio i roddi croesaw i'r cyfarfodydd. Hyderwn y dilynir hwy a'r bendithion goreu. Gwelsom yn bresenol heblaw y rhai a enwyd, y Proff. Moore, B.A., Caerfyrddin, y Parchn. David Evans, Cribyn; E. T. Evans, Caerfyrddin; Thomas James, M.A., Llandyssul; D. C. Griffiths (B.), Geler Jones (A.), Wesley Morgan (W.), Mr. Ben Davies, myfyriwr; Mr. John Lewis, Pontypridd, &c.

### Gweithrediadau y Pwyllgor.

Cynaliwyd Pwyllgor y Gymdeithas yn Llandyssul, boreu Mercher, Ebrill 2, 1913, y Llywydd, y Parch. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor diweddaf. Penderfynwyd gwneud casgliad y Gymdeithas yn yr Eglwysi y Sul cyntaf yn Mai neu y Sul cyfleus agosaf i hyny. Dewiswyd yr Ysgrifenydd i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, ac hefyd i'r Gyngrhair Gyd-Genedlaethol yn Paris. Dewiswyd Mr. Tom W. Jones, o Ysgol Rammadegol, Pencader i fod yn *Bursar* Cymdeithas Addysgol Myfyrwyr Undodaidd Cymreig. Pasiwyd ar fod yr Ysrifenydd i gael *Cyclostyle* gwerth 30s. at ei wasanaeth. Cymeradwywyd ar fod eglwysi Penrhiw a Phanteg yn cael eu huno ac fod yr un *Supplies* yn y ddau gapel. Mewn perthynas i'r Llyfr Tonau ac Emynau newydd, pasiwyd yn (1) fod yr Ysgrifenydd i

ohebu a Phwyllgorau Cymanfaoedd Canu Ceredigion a Morganwg ac i geisio ganddynt hwy awgrymu enw rhyw berson neu bersonau addas i olygu y rhan gerddorol o'r llyfr, ac yn (2) fod y mater i gael ei ohirio hyd y cwrdd blynyddol yn Nghribyn ac fod yr Ysgrifenydd i ymohebu a'r Eglwysi gyda'r amcan o gael cynrychiolaeth lawn yno. Pasiwyd fod y Cwrdd Blynyddol i gael ei gynal yn Nghribyn. Yr eglwys yno i wneud y trefniadau arferol.

## PRIODASAU.

MAWRTH 12, yn Nghapel Ebenezer, Casnewydd, Mr. J. A. Evans, Pwllglas, Llanwnen, a Miss Annie Rees, Aberaeron.

EBRILL 12, yn Nghapel Cribyn, gan y Parch. D. Evans, Mr. James Evans, Maesllwyd, a Miss Kate Davies, Cwmcoedog, Mydroilyn (diweddar athrawes yn ysgol Cribyn).

EBRILL 12, yn Nghapel Brondeifi, Llanbedr, gan y Parch. R. C. Jones, unwyd Mr. Abraham Price, Croesgwenllian, Llanwenog, mewn glân briodas a Miss Lizzie Thomas, Llwyncnau, Llanfairclydogau. Heddwch a ffyniant fyddo eu rhan hyd derfyn eithaf eu taith.

## MARWGOFION.

MAWRTH 7, bu farw Elizabeth, baban i Evan a Margaret Jones, Glydwer, yn 6 wythnos oed. Claddwyd yn Llanwenog y Llun canlynol, a gweinyddwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan weinidog Cribyn.

MAWRTH 24, yn 53 mlwydd oed, Mary, anwyl briod Edward Bevan, Ystor Tawe, Trebanos. Anisgwyliadwy iawn y bu yn hanes marwolaeth ein hanwyl chwaer. Gwelid arwyddion nychdod yn ngwedd ei theml o glai, ond pell fu pawb o feddwl fod yr orsaf mor agos tra teithiai y trên mor gysurus. Soniodd lawer am y Ganaan Nefol yn ein clyw, hoffem ninau wrando, am y gwyddem y gwrandawem ar un grefyddol. Ynddi hi y blodeuodd amryw o rinweddau i'w llawn dwf. Mae eglwysi Gellionen a'r Graig wedi colli aelod disglaer iawn. Gedy yr ymadawedig deulu lluosog i alaru y golled fawr, a braint yw tystio fod y plant wedi eu dwyn bob un drwy borth caletaf y bywyd hwn. Y dydd Iau canlynol cymerodd ei chynhebrwng le, a chladdwyd wrth Gellionen. Teimlem rhyw ddwysder llethol ar lan ei bedd—gwlychid pob grudd bron gyda deigryn oedd yn genad dros y galon. Yn absenoldeb y Parch. D. G. Rees, y gweinidog, yr hwn sydd ar bererindod yn ngwlad y

Ganaan ddaearol, gwasanaethodd y Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe. Darllenwyd yn y capel gan y Parch. J. M. Williams (A.), Carmel, Clydach; gweddiwyd gan y Parch. D. G. Richards (A.), Gosen, Trebanos, ac offrymwyd gweddi ar lan y bedd gan y Parch. H. S. Williams (A.), Tabernacl, Pontardawe. Caffed ei chydmar unig a'i deulu bob cyfnerth eto, i barhau i ddilyn olion traed yr hon a fu yn wraig a mam ddarbodus a thyner. Danfonwyd naw o flodauglymau gan berthynasau a ffryndiau, o bell ac agos, i'w rhoi ar ei harch a'i bedd. "Ac yr oedd iddi hi air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun."

Ar fy neulin bum yn holi
Am gyfrinedd bywyd hon,
Tra dirgelwch gwyn yn llosgi
Eglurebau yn fy mron.

Mae tynerwch fel y blodion,
Pwyll yn ddisglaer fel y ser;
A serchawgrwydd fel yr hinon,
Cariad fel y loergan dêr.

Enaid anwyl, paid anghofio
Bywyd prydferth Iesu Grist;
Glyw di'r marw yn llefaru!
Cadw'r bregeth wrth dy glust.
—BANOS.

MAWRTH 25, Thomas Thomas, Bankyplas, ger Capel Dewi, Llandyssul, yn 83 oed. Gadawodd bedwar o blant, brawd a llu o berthynasau mewn galar. Yn ei ddyddiau goreu yr oedd Thomas Thomas, yn aelod ffyddlawn iawn yn Llwynrhydowen, ac nid oedd dim a hoffai'n well yn ei hen ddyddiau na myn'd dros hanes yr eglwys yn y dyddiau a fu, yn enwedig hanes Gwilym Marles a'r troad allan. Gwaith pleserus iawn oedd gwrando arno yn adrodd hanes yr hen ddyddiau, ac yn son am yr hen bobl ffyddlon y cofiai efe am danynt yn y Llwyn. "ond maent wedi myn'd i gyd, fachgen," meddai, a bellach, wele yntau wedi myn'd ar eu hol, a'i eglwys a'i ardal wedi colli un o'u hen gymeriadau gweithgar a diniwed. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf, Llandyssul. Pregethwyd yn y tŷ gan E. O. Jenkins, a gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Ficer. "Da was da a ffyddlawn."

MAWRTH 27, Elizabeth Mary, plentyn ieuengaf Mr. David Thomas Evans, a Mrs. Margaret Evans, Pantglas, Llanfihangel Ystrad, yn flwydd a saith mis oed. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Eglwys Rhydygwin, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

MAWRTH 29, yn 10 mlwydd oed, bu farw Jenkin, mab Daniel ac Elizabeth Hughes, Glanfallen, Cribyn, ar ol cystudd maith. Dydd Iau canlynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Cribyn gan dyrfa luosog, a gweinyddwyd ar yr âchlysur gan weinidog y lle.

EBRILL 11, Sarah, anwyl briod Evan Thomas, Troedybryn, Pontshaen, Llandyssul, yn 74 oed, gan adael priod, brawd a chwaer oedranus mewn galar. Rhy brin o wythnos o gystudd gafodd Mrs. Thomas, ond yr oedd yn gystudd caled iawn, a chredwn mai da oedd iddi gael dianc o'i phoen. Yr oedd yn un o ffyddloniaid Bwlchyfadfa; ni chai dim ond afiechyd ei chadw gartref o'r addoliad. Bydd ei lle yn wag yn yr eglwys; bydd ei lle yn wag ar yr aelwyd hefyd, canys yr oedd yn fenyw lanwedd, ddiwyd a gofalus. Cydymdeimlir yn fawr a'r priod sydd wedi ei adael mor unig, ac a'r brawd a'r chwaer oedranus sydd wedi colli un arall a gerid yn fawr ganddynt. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan E O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan T. A. Thomas.

EBRILL 13, Jane Howell, Brook Street, Aberaman, yn 63 oed. Merch oedd yr ymadawedig i'r diweddar Dafydd a Sophia Howell, a chwaer i Howell a Rees Howell (Alaw Cynon), yr hwn sydd yn arweinydd canu gan yr Undodiaid yn Pontypridd. Cafodd gystudd maith, ond yn rhinwedd ei dyoddefgarwch digyffelyb a gofal

tyner ei brawd Howell, yr hwn weinyddodd mewn modd mor ffyddlon i'w holl angenrheidiau, dygodd y cyfan yn ddiachwyn hyd y diwedd. Y dydd Iau canlynol daeth nifer o gyfeillion ynghyd o wahanol fanau, ac yn enwedig o Highland Place, Aberdar, lle y bu yn aelod selog am lawer o flynyddau, i hebrwng yr hyn oedd farwol o honi i Gladdfa Gyhoeddus, Trecynon. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Park Davies, Pontypridd.

EBRILL 13, yn 53 mlwydd oed, Mr. Evan Evans, Maesygaer, Ciliau Aeron. Daeth diwedd yr ymadawedig yn annisgwyliadwy iawn. Llai nag wythnos cyn ei farwolaeth yr oedd yn iach ac yn hoew. Collodd eglwys Ciliau un o'i cholofnau drwy ei farwolaeth. Gwasanaethodd am flynyddau lawer, hyd ddydd ei farwolaeth, fel diacon a blaenor y gân, a llanwodd y cylchoedd hyny yn y modd goreu. Yr oedd yn gerddor galluog a naturiol, a gellid teimlo ei fod yn canu a'r ysbryd yn gystal a'r deall. Er nad oedd y gynulleidfa yn lluosog yr oedd ei ganu hyfryd a siriol yn ein codi yn uchel i fyny i awyrgylch ysbrydol. Mae yn drist meddwl fod y llais peraidd a arferem glywed o Sul i Sul wedi tewi yn y byd hwn, ond mynych iawn y daw adsain o hono i'n cof yn yr addoliad am amser maith i ddod. Cawd ef hefyd yn ffyddlon gyda phob peth arall yn yr eglwys. Efe oedd y prif symudydd mewn pob achos, a theimlir colled ar ei ol, yn neillduol yn yr Ysgol Sul. Nid yr eglwys yn unig sydd ar ei cholled ond yr ardal yn gyffredinol hefyd. Cadwai Ysgol Gân yn wythnosol yn nghapel Ciliau er's blynyddau, ac yr oedd tua degar-hugain o blant perthynol i wahanol enwadau yn y gymydogaeth yn mynychu hon yn rheolaidd. Mae llawer heddyw yn teimlo yn ddiolchgar am yr addysg gerddorol a gawsant ganddo. Yr oedd holl blant yr ardal, o bob enwad, a phobl ieuainc yn gyffredinol, yn hoff iawn o hono, ac yr oedd ei ddylanwad arnynt yn neillduol o ddyrchafol. Yr oedd yn cymeryd dyddordeb neillduol mewn llenyddiaeth a cherddoriaeth, ac o dan ei arweiniad yr oedd ei gôr yn fynych yn fuddugoliaethus yn Eisteddfodau y Sir. Yr oedd yn hyfrydwch meddwl iddo gael ei appwyntio cyn ei farwolaeth i fod yn arweinydd Cymanfa Ganu Undodaidd Ceredigion y flwyddyn hon, ac nid oedd neb yn fwy teilwng o'r anrhydedd. Edrychai yn mlaen tuag at yr wyl hon gyda phleser mawr, ac yr oedd wedi cael ei foddhau yn anghyffredin yn y *Rehearsals*. Yr oedd yn ddyn o gymeriad disglaer a chyflawn yn mhob ystyr. Yr oedd yn briod cariadus, a chyflawnodd ei ran yn ei gartref yn ganmoladwy. Yr oedd ei sirioldeb a'i hawddgarwch yn gwneyd aelwyd Maesygaer yn un o'r rhai mwyaf dedwydd yn y wlad. Yr oedd yn gyfaill unplyg, a gwyddai pawb o'i gydnabod y gallent roddi llwyr ymddiried ynddo. Bu am flynyddau yn llanw y swydd o ysgrifenydd Bwrdd Ysgol y cylch, ac ar adeg ei farwolaeth yr oedd yn un o oruchwylwyr ysgol ddyddiol y lle. Claddwyd ef yr Iau canlynol yn nghladdfa Capel Ciliau, a daeth torf anghyffredin o bobl, o bell ac agos, i ddangos eu parch i'w goffadwriaeth, ac ar wynebau pawb yr oedd arwyddion eu bod mewn galar dwys ar ol cyfaill ffyddlon. Pregethwyd gan ei weinidog, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies; R. C. Jones; E. O. Jenkins; T. Cennech Davies (A.), a Corris Hughes (W.) Ar lan y bedd canwyd yr emyn, "Mae'n hyfryd meddwl ambell dro," yn deimladwy iawn gan blant yr Ysgol Gân. Yr oedd y plant hefyd wedi anfon blodau-dorch hardd i roddi ar ei fedd. Cydymdeimlir yn ddwfn a'i briod yn ei galar dwys. Bydded i'r Tad nefol, yr hwn a wasanaethodd yr ymadawedig mor ffyddlon yn ystod ei fywyd, roddi nerth iddi o dan ei chroes

EBRILL 13, yn 77 oed, David Thomas, Gwarffynon, Tregroes, gynt o Brynamlwg, ger Pantdefaid. Saer ydoedd yr ymadawedig wrth ei alwedigaeth, a threuliodd ei oes hir-

faith yn yr ardal uchod. Bu'n dihoeni am lawer blwyddyn, ac yn ei gystudd gweinyddwyd arno yn ofalus gan ei nith, lle y cartrefai y rhan olaf o'i oes. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono y dydd Iau dilynol yn Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas.

EBRILL 15, yn 63 mlwydd oed, Catherine Morgans, Cwmyrodyn, Llanfihangel-Ystrad. Yr oedd iechyd yr ymadawedig wedi bod yn wael er's blynyddau, ac yr oedd wedi cael ei chyfyngu i'w gwely am amryw o fisoedd cyn ei marwolaeth. Cafodd ei phriod golled fawr yn ei marwolaeth gan fod ei iechyd ei hun yn wael. Gadawodd, heblaw ei phriod, bedair merch ac un mab i alaru ar ei hol. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Eglwys Llanfihangel-Ystrad. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y tŷ ac yn y fynwent gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn.

EBRILL 19, yn 23 oed, Daniel Davies, mab Mr. a Mrs. E. Davies, Plygyrhiw, Llandyssul, gynt o Typoeth. Claddwyd y dydd Iau dilynol yn mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas; yn y capel gan y Parch. E O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan Mr. T. G. Thomas, Talgarreg. Yn Sir Forganwg y bu yr ymadawedig yn treulio rhan fwyaf o flynyddoedd diweddaf ei fywyd, ac yno yn ddiau y gafaelodd hadau y darfodedigaeth ynddo. Ni fu ei gystudd ond cydmarol fyr. Nerth a gaffo y tad a'r fam, y brodyr a'r chwiorydd i gydymddwyn a'r brofedigaeth lem.

EBRILL 19, yn 62 oed, ar ol byr gystudd, y Parch. George Evans, M.A., Abbotsford, Middleton, Manchester. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Gaerfyrddin, a bu iddo yrfa lwyddianus fel myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. Yn 1873, enillodd Ysgoloriaeth y Dr. Williams yn Mhrifysgol Glasgow, lle y graddiodd yn M.A. yn 1876. Oddiyno aeth i Goleg Manchester New, Llundain, ac ar derfyn ei amser yno etholwyd ef yn Ysgolor yr Hibbert, a bu am bedair blynedd, 1879–83, yn Mhrifysgolion Leipsic a Strasburg. Bu yn weinidog llwyddianus yn amryw o'n eglwysi yn Lloegr, ac yn mhob man yn fawr ei barch. Brawd ydoedd i'r Parch. T. B. Evans, M.A., Heywood. Y dydd Mercher dilynol gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. John Evans, B.A., Rochdale, ac yn y Crematorium gan y Parch. R. T. Herford, B.A., Stand. Gadawodd briod—chwaer i'r diweddar Mrs. R. J. Jones, Aberdar, a thri o blant mewn galar o'i golli. Deallwn fod ei lwch yn cael ei osod yn Cemetry tref Caerfyrddin.

## MANION AC HANESION.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Dymunem adgofio ein Eglwysi, y Tanysgrifwyr caredig, a'r Undodiaid sydd ar wasgar yn mhob man fod y Casgliadau a'r Tanysgrifiadau blynyddol yn awr yn ddyledus, ac hyderwn y gwneir eu danfon yn ddioedi i'r Trysorydd, Mr. D. Martin Jones, Gwyon Castle, Llandyssul.

LLANDYSSUL.—Cynhelir Nodachfa (*Bazaar*) dydd Mercher, Mai 28, mewn cysylltiad a chapel y Graig. Bwriada y cyfeillion yma adeiladu ysgoldy at eu gwasanaeth gan nad

oes ganddynt yr un ar hyn o bryd, a gobeithiant gael elw da ar y dydd uchod. Gofynant am help eu cyfeillion yn mhob man.

Y GENINEN. — Y mae Rhifyn Ebrill o'r *Geninen* fel arfer yn ddyddorol iawn. Ceir ynddo rai erthyglau nerthol a byw. O dan y penawd "Hunan-gofiant Enwogion," parha y Parch. R. J. Jones, M.A. i roddi hanes ei fywyd ei hun, ac i mi y mae yn hanes dyddorol dros ben. Cyfnod ei gwrs tra yn Ngholeg Caerfyrddin sydd dan sylw yn y Rhifyn hwn a'i dderbyniad fel Ysgolor y Dr. Williams i Brifysgol Glasgow. Y mae y Rhifyn drwyddo yn un da.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.—Deallwn oddiwrth y cyfeillion yn Nghribyn eu bod wedi penderfynu fod y cyfarfodydd uchod i gael eu cynal yno yr ail wythnos yn mis Awst. Ymddengys manylion pellach eto.

Y PWYLLGOR CYNGHOROL.—Cyfarfyddodd y Pwyllgor hwn yn ddiweddar yn Aberdar i ystyried cais wnawd gan y Parch. E. T. Evans, diweddar weinidog yr Annibynwyr Seisnig yn Llanbradach, am gael derbyniad i'r weinidogaeth Undodaidd. Ar ol ymchwiliad manwl ac ystyriaeth ofalus, pasiwyd yn unfrydol roddi iddo dderbyniad. Y mae Mr. Evans yn enedigol o dref Caerfyrddin, ac ar ol y cwrs arferol o addysg yn Ngholeg Caerfyrddin, bu am beth amser yn weinidog yn Llanbradach. Credwn fod Mr. Evans yn fachgen ieuanc addawol ac iddo air da gan bawb a'i hadwaena. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei faes newydd, fel gweinidog Highland Place, Aberdar.

CAPELYGROES.—Cynhaliwyd y tê parti blynyddol ar y 25ain o Fawrth. Rhoddwyd y tê a'r danteithion eleni gan Mr. a Mrs. Lewis, Caeglas, a Mr. a Mrs. Davies, Undergrove. Daeth nifer luosog yn nghyd yn ystod y prydnawn, a hawdd oedd gweled fod pawb wedi eu boddloni yn fawr. Cynhaliwyd cwrdd adloniadol yn yr hwyr, dan lywyddiaeth y Cynghorwr Evans, Ffynonfair, pryd yr awd trwy raglen hir o adrodd a chanu, yn nghyd a drama, "Pleidleisiau i fenywod," yr hon a berfformiwyd yn effeithiol neillduol gan barti lleol. Yn ystod y cyfarfod, pasiwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r ddau deulu uchod am ddarparu'r wledd, ac ategwyd y bleidlais gan amryw o feirdd lleol trwy adrodd neu ganu darnau barddonol. Terfynwyd y cyfarfod trwy ganu "Hen wlad fy nhadau."

CRIBYN. — Y mae cyfres o wersi dyddorol ar y Beibl yn ymddangos yn yr *Unitarian* am y flwyddyn bresenol gan y Parch. Islan Jones, M.A.

RHYDYGWIN.—Cynhaliodd yr eglwys ei gwyl dê flynyddol ar ddydd Gwener y Groglith. Darparwyd y wledd gan Mrs. Davies, Gwrthwyntissaf; Mrs. Jones, Aldergate; a Misses Margaret a Nellie Lloyd, Felindreuchaf. Yr oedd y darpariaethau o'r fath oreu, a'r boneddigesau yn serchog, ac yr oedd y wedd lawen oedd ar wyneb pawb yn dweyd eu bod yn mwynhau eu hunain yn ardderchog. Ar ol y tê cynaliwyd eisteddfod yn y capel, yr hon a drodd allan yn un lwyddianus iawn. Cadeiriwyd gan J. M. Howell, Ysw., Y.H., Aberayron, ac arweiniwyd gan Mr. W. Barrow Griffith, C.M., Cribyn. Y beirniaid oeddynt:—cerddoriaeth, Mr. R. D. Herbert, L.T.S.C., Lledrod; barddoniaeth, Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Tannerdy; amrywiaeth, J. M. Howell, Ysw.; gwniadwaith, Miss Jones, Tanlan, Cribyn; celfyddydwaith, Mr. Thomas Jones, Croyddin Castle. Yr ysgrifenyddion oeddynt Mr. David Davies, Gwrthwyntissaf a Thomas Lewis Jones, Croyddin Castle. Y trysorydd oedd Mr. Evan Jones, Aldergate.

Y DIWEDDAR MR. EVAN EVANS, CILIAU.—Mae Pwyllgor wedi cael ei ffurfio i gasglu arian ar gyfer rhoddi careg goffadwriaethol ar fedd y diweddar Mr. Evan Evans, fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth. Hyderir y bydd i'w gydnabod a'i edmygwyr yn mhell ac agos gyfranu tuag at y draul. Derbynir tanysgrifiadau gan Mrs. Davies, Glynderwen, Ciliau

Aeron a Mr. Evan Hughes, Corner Shop, Dihewyd, ysgrifenyddion; Mr. Thomas Jonathan, Foelallt, trysorydd; Parch. L. Williams, cadeirydd.

GELLIONEN A'R GRAIG. — Yn Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, nos Sadwrn, Ebrill 12eg, i lonaid adeilad o bobl wrandawgar, rhoddwyd perfformiad meistrolus o'r chwareugerdd boblogaidd a elwir "*The Magic Cup*" (*Maurice Johnston*) gan Obeithlu y lle, dan arweiniad Mr. H. H. Morgan, Trebanos, i'r hwn y mae anrhydedd mawr yn ddyledus am y gloewder a welwyd ar y llafur o'r dechreu i'r diwedd. Gweithiwyd allan y gwahanol gymeriadau mewn arddulliau boddhaol. Edrychai y Côr o Blant yn ddestlus, yn eu gwynder atdyniadol, a chanent nes deffro tànau dyfnaf ein bywyd. Derbynied pob un na enwyd yma y diolch cynesaf am eu help diflino i ddwyn oddiamgylch waith a fu yn llwyddiant perffaith.——Fel y mae eisoes yn wybyddus i lawer fod y Parch. D. G. Rees, gweinidog Gellionen a'r Graig, yn nghyd ac ereill, wedi myned ar daith i wlad Canaan, er mwyn ymweled, a bod yn llygad-dyst o amryw o'r lleoedd hyny y sonir am danynt yn ein Beibl ni; a chael y mwynhad a'r pleser cysegredig o rodio dros yr un llwybrau ag yr aeth y Blaenor Bendigedig. Eiddunwn iddo bob rhwyddineb yn ei anturiaeth bwysig, a gobeithiwn y dychwel heb amharu dim ar ei iechyd. Awgrymir gan rai (yn ddistaw bach) y cawn wledd ddarlithyddol gan Mr. Rees yn union y ca hamdden i ddethol a dosranu ei berlau teithiol. Mae y fugeiliaeth o dan ofal y Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe, yr hwn sydd wedi gwneud caredigrwydd yn barod, fel y gwelir mewn colofn arall o'r Rhifyn hwn. Hefyd, mae ei braidd bychan, yr hwn a adawodd Mr. Rees ar ol yn y gorlan, wedi addaw, ac yn parhau i fod yn ffyddlon ac ufudd, gan hyderu y clyw eto beraidd lais yr hwn a'i car.

ADGOF AM HEN BETHAU—Er ys blynyddoedd bellach cododd ryw awydd arnaf, fel eraill, i fyned am wythnos i wlad Myrddin. Bore Sadwrn codwyd tocyn yn Aberdar am Caerfyrddin; a phan yn myned i'r lan trwy Heol Awst gwelais Mr. W. Phillips, Blaentrafle, un o'm hen ffryndiau goreu. Wedi cyfarch ein gilydd a siglo llaw gynes, gofynodd a ddeuwn gydag ef i'r Shire Hall i bwyso gwlan. Gwnaf, gyda'r pleser mwyaf, ebe fi. Gwraig oedd yn pwyso i bawb, dododd sachaid yn y dafol, pwysau da; un arall, yr un eto. "'Does dim eisieu pwyso rhagor," ebe hi. "O na, gwell fydd pwyso yr oll," ebe fe. Felly bu. Y pwyse yn dda, beth bynag, a chafodd y wraig dda ei boddio yn y gwlan—"yr oll yn lân a sych, dim wns o un cwrs a garw, fel y mae llawer yn ei ddodi yn ngwaelod y sach, a llawer o faw brwnt fel y maent yn peri trafferth i mi," meddai hi, "a dim ond un sydd wedi dod eleni fel chwi, yn lân, a digon o bwysau." "Wel," ebe fi, "pwy yw hwnw, mi garwn wybod?" "Nid ydych yn ei adnabod," meddai, "am mai yn mhell oddi yma ac oddi wrthych chwithau mae yn byw, islaw Naiberth." "Beth yw ei enw," ebe fi. "O, Phillips." "O, Richard fy mrawd yw ef." "Wel! Wel!" ebe hi," dyna beth òd. Yr ydych wedi cael eich dwyn i fyny mewn teulu da. Perthyn i ba enwad ydych?" gofynai drachefn. "Nid wyf yn foddlon dweyd," ebe fe." "Paham hyny?" meddai hi. "Am fod dynion yn galw enwau cas, megis Sosiniaid, a hen Sosin, &c., arnom. Undodiaid ydym, ac fe'n dysgir i fod yn onest a geirwyr, &c., a dylai pawb fod felly." "Dylent Syr. Bydd yn dda genyf eich gweled yma eto, pryd y bydd genych wlan i werthu, dydd da i chwi." Cefais fel ymwelydd awr ddifyr wrth wrando, ac aethum gyda Mr. Phillips ar ol gweled llawer o'm ffryndiau o bob oed. Cefais fy nghario yn ei gerbyd yn gysurus i'w gartref bumtheg milltir o ffordd, 'roedd hyny yn dda iawn i hen bererin.—*R.D.* (*86 oed.*)

Y PARCH. D. G. REES.—Fel y gwelir mewn nodyn arall y mae Mr. Rees ar daith drwy wlad Canaan. Derbyniasom y nodyn canlynol o Jericho, ac o bosibl y bydd yn dda gan lawer heb yrysgrifenydd i glywed gair fel hyn oddiwrtho :—"ANWYL MR. YMOFYNYDD,—Dyma fi yn eich cyfarch o Jericho. Cefais fy nanfon i Jericho lawer gwaith, dyma fi yno o'r diwedd. Y mae yn ofnadwy o boeth. Cwpanaid o de a bara oedd fy nghiniaw. Telais naw ceiniog am dano ac yr oedd yn llawn gwerth yr arian. Yr ydym wedi bod yn gweled olion dinas gyntaf Jericho. Y mae y muriau sydd yn gwynebu yr Iorddonen yn llawn deunaw troedfedd o drwch, ac y mae olion tai yn amlwg yn y muriau yr hyn sydd yn cadarnhau posibilrwydd ty Rahab ar y mur, pan ddaeth ysbïwyr Joshua. Yr ydym yn myned y prydnawn yma i lan afon yr Iorddenen a'r Mor Marw. Gobeithio os caf fywyd ac iechyd roddi i chwi fanylion llawnach eto.—Yr eiddoch a'ch darllenwyr, o iselaf fan y ddaear,—DAVID G. REES.

GWANWYN.

Eto'r gwanwyn mwyn a ddaeth,
Gwisgo'n daear â gwyrdd a wnaeth ;
Clywch yr adar yn y co'd
I'r Creawdwr yn rhoi clod.

Lle'r oedd gynau eira gwyn,
Fe geir blodau erbyn hyn ;
A'r maes llafur gwyrdd y sydd
Yn addewid c'nauaf ddydd.

Rho Dy wanwyn, Ior, i ni,
Gad in' deimlo'th ras yn lli ;
O, llefara hedd i'n bron,
A gwna'r enaid trist yn llon.

Rho Dy wenau ar yr ardd,
A phob peth yn hyfryd dardd ;
I bob peth oedd farw o'r blaen
Gwanwyn ddyry newydd raen.

STORI IUDDEWIG.—Pan oedd Alexander Fawr ar ei daith i orchfygu'r byd daeth ar draws pobl mewn rhan anghysbell o Affrica, y rhai ni wyddent ddim am ryfel. Arweiniasant ef i fwthyn eu penaeth yr hwn a'i derbyniodd yn roesawgar ac a osododd o'i flaen ffrwyth palmwydd aur, a ffigys aur, a bara aur. "A ydynt yn bwyta aur yn eich gwlad chwi" ebe Alexander. "Cymeraf yn ganiataol" ebe'r penaeth, "y gellit gael pethau bwytadwy yn dy wlad dy hunan, a phaham gan hyny y daethost i'n gwlad ni?" "Nid eich aur sydd wedi fy nhemtio" ebe Alexander, "ond carwn wybod rhywbeth am eich arferion a'ch defodau." "Boed felly" ebe'r llall, "gelli aros yn ein plith cyhyd ag y mynot" Ar derfyn yr ymddiddan, daeth dau ddinesydd i fewn ac i'r llys barn, ac ebe'r achwynydd, "prynais ddarn o dir gan y dyn hwn, ac fel yr oeddwn yn gwneud ffordd trwyddo cefais drysor. Nid eiddof fi yw, gan na fargeiniais ond am y tir yn unig, ac nid am y trysor a allai fod yn guddiedig oddi tano, ac eto mae ei berchenog blaenorol yn gwrthod ei dderbyn" Atebodd hwnw, "gobeithio fod genyf gydwybod, yn ogystal a'm cyd-ddinesydd, gwerthais iddo y tir a'r oll oedd ynddo ac felly'r trysor." Aeth y penaeth yr hwn hefyd oedd y barnwr, dros yr hyn oedd wedi ei ddywedyd, fel y gallai'r partion weled pa un a oedd wedi deall neu nad oedd. Yna, wedi ychydig ystyriaeth, meddai wrth un, "credaf fod genyt ti fab" "Oes yn siwr" ebe yntau. Ac wrth y llall, "y mae genyt ti ferch, onid oes?" "Oes." "Wel, bydded i'th fab di briodi dy ferch di, a rhoddwch y trysor i'r par ieuanc i ddechreu eu byd." Synodd Alexander, "Beth, a ystyriech fy nedfryd yn anghyfiawn?" ebe'r penaeth. "Naddo, yn wir" ebe Alexander, "ond mi synais yn fawr." "Sut hyny?" ebe'r penaeth. "Sut y penderfynasent achos o'r fath yn eich gwlad chwi?" Ebe Alexander, 'a chyffesu'r gwir, buasem yn cymeryd y ddau berson i'r ddalfa, a chymerem y trysor at wasanaeth y brenin."

"A ydyw'r haul yn dysgleirio yn eich gwlad chwi?" "Ydyw." "A ydyw hi'n gwlawio yno?" "Ydyw."

"Rhyfedd! A oes yno greaduriaid dof—yn byw ar wellt a phorfa." "Llawer iawn, ac o lawer math." "Dyna ynte, raid fod yr achos," ebe'r penaeth, "er mwyn y creaduriaid diniwed hyny, y mae'r Tad graslawn yn anfon Ei haul a'i wlaw i'ch gwlad, gan fod y trigolion yn hollol anheilwng o'r cyfryw fendithion."

GWEDDIO DROS Y MEIRW.—Paham lai? Nid wyf fi erioed wedi gwneud hyny, ond nis gallaf weled paham y rhaid i mi beidio. Pan yn gweddio dros berson byw (ac fe'n dysgir i wneud hyny) nid wyf yn gweddio dros y corff ond dros yr yspryd sydd y tu fewn i'r corff. Wrth gwrs os tybir fod yr yspryd hwnw yn parhau i fyw, os oedd fy nweddiau o unrhyw help yma, nid wyf yn gweled na allant fod o ryw help yno. Pan af yno, ni charwn feddwl fod yn rhaid i mi roi heibio gweddio dros y rhai adawaf ar ol, ac felly nid wyf yn gweled ei bod ddim yn fwy naturiol i roi heibio gweddio dros y rhai sydd wedi blaenu. Mae'r corff yn fath o garchar, ac os gallaf weddio dros ddyn mewn carchar, nid wyf yn gweled paham na allaf, pan fyddo wedi ei ryddhau o'i garchar.

Y TROAD ALLAN O'R LLWYN.—Credaf y bydd y llythyr canlynol oddiwrth Parry (Madryn) diweddar Aelod Seneddol dros Sir Gaernarfon at y Parch. W. Thomas, M.A., o ddyddordeb cyffredinol.—*R.J.J.*:—

"59, Jermyn Street, London,
"April 7, 1878.

"Sir,

"Your application for a subscription towards an Unitarian Chapel, dated March 17, 1877, has followed me half the world over, which will excuse me for not having sooner attended to it.

"I profess Christianity as taught in the Establised Church of England and am called a Broad Churchman, so broad as to be able to sympathise with *all* and *every* sect and form of the worship of Jesus. There I draw the line and cannot assist those who I think are in grievous error to disseminate their cheerless and illogical dogmas.

"Yours faithfully,

"Love Jones Parry,

"Of Madryn."

AWSTIN A PHELAGIUS.—Yr oedd y ddau yn ddynion mawr, yn ddynion galluog, ac yn ddynion da, mor bell ag y gwn i; er nad oes genym ddim am Pelagius ond a ddywed ei elynion; ond a chymeryd ei elynion yn farnwyr, y mae yn well genyf fi athroniaeth a duwinyddiaeth Pelagius nag eiddo Awstin, er fod Awstin wedi ysgrifenu rhai pethau da iawn. Barn arall fodd bynag sydd gan Proffeswr Young Evans, o Goleg Duwinyddol Aberystwyth, am Pelagius. Medd efe, "Mawrygu gallu a daioni cynhenid dyn syrthiedig a wna Pelagius; ac awgrymiadol tu hwnt yw'r frawddeg a geir o newid trefn llythyrenau y gair *Pelagius*—pagan lie" Synwn at Mr. Evans yn ymostwng i wneud *joke* wael ar draul un o ddynion ardderchocaf ei oes. Ffei o hono!

DWEYD yn gall wnaeth Syr Garrod Thomas, M.D. (boy o Lanarth onide) wrth anerch bechgyn Ysgol Ganolraddol Casnewydd: Pe fyddai gan y gwleidyddion a'r diplomat ychydig o'r yspryd gwyddonol, gwnai'r hanesydd son yn dda am dano, ac ni fyddai y mil blynyddau'n ymddangos mor bell. Anogai'r bechgyn i feithrin yn eu meddyliau yspryd caredig tuag at drigolion gwledydd eraill. "Peidiwch edrych arnynt fel eich gelynion, ond yn hytrach fel rhai yn debyg i chwithau yn ceisio helpu yn y blaen y gwaith mawr o gynydd a gwelliant yr hiliogaeth."

---

*J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.*

+ Pelagian

An intensely human and vividly realistic Novel depicting Life, Thought, and Character in the "Land of Religion and Song."

TO BE PUBLISHED SHORTLY, PRICE 6s.

# "DANIEL EVELYN, HERETIC."

A Story which contains less fiction than fact.

*By CADVAN RHYS (Author 'The Welsh Jew,' 'Poetlets & Bardlings,' &c.*

Orders received by J. D. Lewis, "Yr Ymofynydd" Office, Llandyssul.

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

# HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

**Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.**

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

# CHANNING HOUSE.

**High School for Girls and Unitarian Boarding School,**

HIGHGATE, LONDON, N.

*Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

# Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

***PURE WELSH OATMEAL.***

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

*Order to-day from the Manufacturers—*

***T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.***

# The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

## NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

**Directors:**

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Eliy Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Authorised Capital .. | £22,200,000 | Subscribed Capital .. | £19,148,340 |
| Paid up Capital .. | £3,989,237 | Reserve Fund .. | £3,390,313 |
| Deposits .. | £83,000,000. | | |

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Ystrad-ffwdfigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland,